**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 2 Medi 2021 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C A Holley | P M Matthews |
| P M Black | B Hopkins | H M Morris |
| J E Burtonshaw | D H Hopkins | D Phillips |
| M C Child | L James | C L Philpott |
| J P Curtice | O G James | S Pritchard |
| N J Davies | Y V Jardine | A Pugh |
| A M Day | J W Jones | C Richards |
| P Downing | L R Jones | K M Roberts |
| C R Doyle | M H Jones | B J Rowlands |
| M Durke | M Jones | M Sherwood |
| C R Evans | P K Jones | R V Smith |
| V M Evans | S M Jones | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | E J King | R C Stewart |
| R Francis-Davies | E T Kirchner | D G Sullivan |
| S J Gallagher | H Lawson | G J Tanner |
| L S Gibbard | A S Lewis | L G Thomas |
| F M Gordon | M B Lewis | G D Walker |
| K M Griffiths | R D Lewis | L V Walton |
| J A Hale | W G Lewis | T M White |
| D W Helliwell | P Lloyd | |
| T J Hennegan | I E Mann | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jason Garcia | Audit Manager (Financial Manager) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams, M A Langstone, C E Lloyd, J A Raynor, W G Thomas, M Thomas a/ac L J Tyler-Lloyd

---

**34. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ar eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 40 "Adroddiad Archwilio Cymru – Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Dinas a Sir Abertawe.

2) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M C Child, J P Curtice, R Francis-Davies, C Evans, F M Gordon, J A Hale, T J Hennegan, C A Holley, E T Kirchner, M B Lewis, P Lloyd, H M Morris, B J Rowlands, R V Smith, D W W Thomas a T M White gysylltiad personol â Chofnod 41 "Datganiad o Gyfrifon 2020/21".

3) Datganodd M C Child gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 43 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 3" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

## 35. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin o'r cyngor a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2021.

## 36. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 37. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Gwobrau APSE "Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus" 2021

Mae Gwobrau APSE yn cydnabod y gorau mewn gwasanaethau rheng flaen Llywodraeth Leol ledled y DU. Cyhoeddir yr enillwyr yng Nghinio Gwobrau Elusennol Blynyddol APSE, er budd Parkinson's UK, ar 9 Medi 2021. Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cyngor Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer

ar gyfer gwobr Cyngor Cyffredinol y Flwyddyn a hefyd ar gyfer 3 chategori arall yng Ngwobrau APSE 2021.

i) Tîm Gwasanaeth Gorau: Tai a Menter Adeiladu. Tîm Cyflwyno Rhagor o Gartrefi. Gwasanaethau Adeiladu a Thai.

ii) Menter Tai, Adfywio neu Adeilad Newydd Gorau. Rhagor o Gartrefi Safon Abertawe/HAPS (Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer). Gwasanaethau Tai ac Adeiladu.

iii) Menter Fasnacheiddio ac Entrepreneuriaeth Orau. Canolbwynt Datblygu Masnachol. Gwasanaethau Masnachol.

**b) Gwobrau Tai Cymru 2021**

Mae Gwobrau Tai Cymru yn cydnabod ac yn dathlu creadigrwydd, angerdd ac arloesedd sefydliadau tai ac unigolion ar draws y sector yng Nghymru. Cyhoeddir yr enillwyr ar 30 Medi 2021. Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cyngor Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer mewn 2 gategori yng Ngwobrau Tai Cymru 2021.

i) Categori Gweithio mewn Partneriaeth. Tŷ Tom Jones.

ii) Categori Arloesedd mewn Tai. Cyngor Abertawe mewn partneriaeth ag Ysgol Pensaernïaeth Cymru.

Enwebodd y cyngor sefydliadau ar gyfer gwobrau ond nid oedd y cyngor yn arwain y prosiectau:

i) Categori Cefnogi Cymunedau. Prosiect Bwyd Swansea Together.

ii) Categori Rhagoriaeth mewn Iechyd a Lles. Nyrs Digartrefedd Arbenigol Abertawe.

**c) Gemau Paralympaidd – Tenis Bwrdd Para – Paul Karabardak**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Paul Karabardak o Waunarlwydd ar ei Fedal Efydd ddiweddar yn y Gemau Paralympaidd 2021 yn nigwyddiad Tenis Bwrdd Paralympaidd. Mae Paul eisoes wedi ennill nifer o Fedalau Ewropeaidd yn dilyn gwaith caled a dyfalbarhad.

**d) Rhestr Binc 2021 - Pobl LGBT+ fwyaf dylanwadol Cymru**

Mae'r Rhestr Binc yn cydnabod Pobl LGBT+ fwyaf dylanwadol Cymru. Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod y Cynghorydd Elliott King, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant, Cadeirydd Fforwm LGBT+ Abertawe ac arweinydd Pride Abertawe ar y rhestr honno.

## 38. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Kabul, Affganistan a Dinas Noddfa Abertawe**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y sefyllfa ofnadwy yn Kabul, Affganistan yn ddiweddar. Rhoddodd sicrwydd i'r cyngor fod Abertawe'n Ddinas Noddfa a'i bod yn helpu'r ffoaduriaid hynny sy'n ffoi rhag erledigaeth i ail ymgartrefu yn Abertawe.

**2) Y diweddaraf am COVID-19**

Rhoddodd arweinydd y cyngor y diweddaraf am bandemig COVID-19.

**3) Teithio am ddim ar fyus yn Ninas a Sir Abertawe**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr awdurdod wedi ariannu teithio am ddim ar fysus o fewn Dinas a Sir Abertawe yn ddiweddar drwy gydol gwyliau'r haf. Nod y cynllun hwn oedd rhoi hwb i deuluoedd, twristiaeth a busnesau. Bu'n llwyddiant ysgubol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Awdurdod yn gobeithio cynnal y cynnig eto yn ystod hanner tymor a hefyd yn ystod gwyliau'r Nadolig.

## 39. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 40. Adroddiad Archwilio Cymru - Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru, "Adroddiad Archwilio Cyfrifon 2020-2021, Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Dinas a Sir Abertawe".

Ymatebodd Jason Garcia (Swyddfa Archwilio Cymru) i gwestiynau technegol eu natur ac ymatebodd Ben Smith (Swyddog Adran 151) i gwestiynau'n ymwneud â sefyllfa Dinas a Sir Abertawe.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo a llofnodi'r Llythyr Sylwadau Terfynol.

## 41. Datganiad o Gyfrifon 2020/21.

Cyflwynodd y Swyddog 151 a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2020-2021 ar 15 Medi 2021 neu cyn hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2020-2021 a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

## 42. Adroddiad Blynyddol Craffu 2020-2021.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a amlinellodd Adroddiad Blynyddol Craffu 2020-2021 yn nodi gwaith y tîm craffu dros y cyfnod hwnnw.

**43. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A**

Cyflwynwyd pedwar (4) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Rhestrir y cwestiynau atodol y mae angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod:

**Cwestiwn 1**

Dywedodd y Cynghorydd C A Holley, ar ôl cau safle Gwaith Felindre, fod hen Awdurdod Datblygu Cymru a chyn Gyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw yn berchen ar y safle tir llwyd a thir glas, sef cyfanswm o tua 750 erw. Clustnodwyd y tir hwn ar gyfer Parc Busnes 750 erw.

Mae'r Parc Busnes bellach ond yn cyfateb i tua 150 erw gyda’r tir sy’n weddill yn cael ei ddyrannu fel tir ar gyfer tai o dan y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Pryd y gwnaed y penderfyniad i dynnu'r tir o ddefnydd y Parc Busnes a pham?

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

**44. Rhybudd o Gynnig - Siarter MND.**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd S Pritchard ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd R C Stewart.

***Mae’r cyngor yn nodi***

1. *fod Clefyd Niwronau Motor (MND) yn glefyd sy'n datblygu'n gyflym sy'n effeithio ar yr ymennydd a'r llinyn asgwrn y cefn. Gall adael pobl yn gaeth i gorff sy'n methu, sy'n methu â symud, siarad ac anadlu yn y pen draw.*

2. *Mae risg oes person o ddatblygu MND hyd at 1 o bob 300. Gall effeithio ar bobl o bob cymuned a chefndir.*

3. *Mae'r clefyd hwn yn lladd tua 30% o bobl o fewn 12 mis o ddiagnosis, mwy na 50% o fewn dwy flynedd. Mae'n effeithio ar bobl o bob cymuned*

4. *Ar hyn o bryd nid oes gwellhad i Glefyd Niwronau Motor.*

***Mae'r cyngor yn credu***

1. *bod gan bobl sydd ag MND yr hawl i gael diagnosis cynnar a gwybodaeth.*

2. *Mae gan bobl sydd ag MND yr hawl i gael mynediad at ofal a thriniaethau o safon.*

3. *Mae gan bobl sydd ag MND yr hawl i gael eu trin fel unigolion a chydag urddas a pharch.*

4. *Mae gan bobl sydd ag MND yr hawl i wneud y mwyaf o ansawdd eu bywyd.*

5. *Mae gan ofalwyr pobl ag MND yr hawl i gael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu clywed a'u cefnogi'n dda.*

***Penderfyniadau'r cyngor***

*Bydd y cyngor yn ymrwymo i'r siarter MND.*

*https://www.mndassociation.org/app/uploads/2016/02/champion-the-mnd-charter-full.pdf*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.35 pm

**Cadeirydd**